PWYLLGOR CYMRU Y GWASANAETH CYFREITHOL CYMUNEDOL (CLS)

Cofnodion y 3ydd cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2007 yng Ngwesty Park Inn, Caerdydd

Presennol: Tom Jones – Comisiynydd Cymru, LSC (Cadeirydd)
Lynne Schofield – Llywodraeth Cynulliad Cymru
Paul Davies – Cyfarwyddwr Cymru, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Fran Targett – Cyngor Ar Bopeth Cymru (Cadeirydd Fforwm Cen. CLS)
Dafydd Ifans – CAFCASS Cymru
Rhys Evans, Cyngor Defnyddwyr Cymru – yn cynrychioli Nich Pearson
Graham Benfield – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Naomi Alleyne – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Paul Newell – Pennaeth Polisi Sifil, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Jonathan Bennett – Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, Caerdydd
Gareth Moss – SOLACE Cymru
Tiana Williams, Rheolwr Polisi Cymru, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Tracy Scott – Ysgrifenyddiaeth

Presennol ar gyfer Cyflwyniadau:
Yr Athro Richard Moorhead – Prifysgol Caerdydd
Angela McCarthy – Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMs)
Panos Dasygenis – Cyswllt Defnyddwyr Cymru

Ymddiheuriadau am Absenoldeb:
Alexy Buck – Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyhoeddus
Nick Chibnall – Y Gwasanaeth Llysoedd
Dr Caroline Turner – Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dr Neil Wooding – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Yvonne Thomas – NOMs
Nich Pearson, Cyngor Defnyddwyr Cymru
Pascoe Pleasance, Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol
Crispin Passmore, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

1.	**Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Chroeso** Croesawodd Tom bawb i'r cyfarfod ac estynnwyd croeso neilltuol i'r aelodau newydd, John Bennett o'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, Gareth Moss o SOLACE Cymru, Fran Targett, Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol CLS Cymru a Graham Benfield o CGGC.	
2.	**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2007** Cadarnhawyd y ddwy set o gofnodion o'r cyfarfodydd Pwyllgor a Darparwyr blaenorol a nodwyd y cânt eu dodi ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.	

3.	**Materion yn codi** Nodwyd y cyhoeddwyd *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru* y diwrnod blaenorol. Diolchodd Tom i bawb a gymerodd ran wrth ei baratoi mewn pryd ar gyfer y cyfarfod. Nodwyd y cynhaliwyd digwyddiad yn San Steffan gydag Aelodau Seneddol Cymru ym mis Ionawr 2007 i'w diweddaru ar y datblygiadau diweddaraf a'r rhaglen diwygio Ffordd Ymlaen. Cynhelid digwyddiad tebyg ar 16 Ionawr 2008. Soniodd yr Arglwydd Hunt yr hoffai fod yn bresennol.	
4.	**Llais y Cleient – Rôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** Trafododd Graham Benfield gynnwys y papur *Lleisiau Gwybodus a Threfnus* ac amlinellodd ymagwedd bosibl at ymgysylltu â llais ehangach cleientiaid mewn ffordd hylaw a gwybodus. Mae'r papur yn nodi 6 gwahanol lefel o ymgysylltu a medrai CGGC efallai hwyluso ymgysylltu ar bob lefel. Nodwyd fod gan CGGC gronfa ddata helaeth o sefydliadau a rhwydweithiau a bod hyn yn graidd gwe gyfathrebu. Roedd hefyd amrediad helaeth o rwydweithio yn ffurfio'r Cyngor Partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar lefel leol, mae CGGC yn cefnogi ac yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Gwirfoddol Lleol, llawer ohonynt wedi eu sefydlu ar hyd ardal awdurdod unedol. Cytunwyd fod angen eglurdeb ar yr hyn oedd ei angen o unrhyw ymrwymiad cyn y medrid gwneud unrhyw benderfyniadau am bwy y dylid ei gynnwys a sut y medrid ei wneud yn effeithlon. Croesawodd Fran Targett y papur a theimlai ei bod yn bwysig ychwanegu ato gydag ymchwil arall a gynhaliwyd eisoes. Roedd Prifysgol Bangor yn cynnal ymchwil ar ran Cyngor Ar Bopeth Cymru sy'n gweithio o amgylch sut i ddiffinio angen mwyaf. Mae'n anelu i edrych faint o frys sydd ei angen ar gyfer cyngor, gallu'r unigolyn, tegwch a faint o afles y mae rhywun yn debyg o'i ddioddef heb gyngor. Mae'r ymchwil yn cynnwys 3 cam ac ar hyn o bryd mae ar ddiwedd y don gyntaf. Dywedodd Lynne Schofeld fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd rhan mewn ymchwil gyda phlant a phobl ifanc ac awgrymodd y medrid dysgu rhywbeth ohono. Dywedodd Tom fod Shelter wedi cynnal cynhadledd ar bobl ifanc 12 i 18 mis yn flaenorol. Soniodd Dafydd fod plant a phobl ifanc yn aml yn achosi her wirioneddol gan eu bod yn aml heb gymryd rhan mewn trafodaethau unigol ond mai arnynt hwy y mae'r canlyniad yn effeithio arno yn y pen draw. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n rhaid iddo benderfynu gyda phwy y dymunai ymgynghori, pam, a pha mor aml. Mae angen dynodi cleientiaid blaenoriaeth ac mae angen atebolrwydd i'r rhai yr ymgynghorir â hwy. Pe bai pobl i roi eu hamser, dylai fod yn glir beth a wneid fel canlyniad a chymryd ymagwedd dryloyw ac onest yn neilltuol lle na fedrid neu le na fyddai'n bosibl ymateb i adborth. Byddai'n bwysig defnyddio geirfa symlach. Dywedodd Graham y byddai perygl codi disgwyliadau. Roedd y Pwyllgor yn cytuno y byddai eglurdeb am bwrpas a thargedu ymrwymiad cleientiaid yn rheoli lefel y disgwyliad. Cadarnhawyd mai pwrpas y cyfarfod nesaf ar 7 Rhagfyr fyddai ymgysylltu gyda chyrff cynrychioli cleientiaid ac ymgynghori ar brofiadau cyfredol gwasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru.	

5	**Llais y Darparwyr - Rôl Fforwm Cenedlaethol CLS Cymru** Cyflwynodd Fran Targett gyflwyniad i'r grŵp parthed *Fforwm Cenedlaethol Cyngor Annibynnol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.* Roedd yr aelodau'n cynnwys sefydliadau 'ymbarél' yn cynrychioli rhwydweithiau o ddarparwyr cyngor annibynnol a darparwyr cyngor annibynnol gyda chylch gorchwyl ar draws Cymru. Roedd pŵer i gyfethol aelodau ychwanegol ac addas i sicrhau cynrychiolaeth briodol. Amlinellodd Fran yr aelodaeth bresennol a nodwyd y teimlai'r fforwm fod bylchau yn ei aelodaeth. Fran yw Cadeirydd y Fforwm ac yn cynrychioli Cyngor Ar Bopeth Cymru. Roy Morgan yw'r Is Gadeirydd, yn cynrychioli'r Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol. Dywedodd Fran fod y fforwm wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y papur polisi ar gyfer Cymru ac yn croesawu'r amcanion cyffredinol. Roedd rhai pryderon os byddai'r Pwyllgor yn siop siarad neu a fyddai'n ddylanwadol wrth effeithio ar ganlyniadau'r papur, a hefyd os byddai'n mynd i'r afael â mater bylchau mewn darpariaeth cyngor. Nodwyd y byddai Fran angen amser i ymgynghori â'r Fforwm cyn cyfarfodydd Pwyllgor os byddai'n cynrychioli ei chydweithwyr yn effeithlon.	
6	**Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y CLS yng Nghymru** Dywedodd Paul Davies fod yr LSC yn y broses o wneud rhai newidiadau sylweddol i'w systemau technoleg gwybodaeth. Golygai'r newidiadau fod y Comisiwn wedi methu cynhyrchu data ar gyfer y Perfformiad Allweddol ar y pwynt hwnnw, fodd bynnag fe'i cylchredir i'r Pwyllgor unwaith y bydd ar gael.	
7	**Cyswllt Defnyddwyr** Rhoddodd Panos Dasygenis gyflwyniad i'r Pwyllgor ar *Cyswllt Defnyddwyr.* Mae'r llinell gymorth yn derbyn galwadau gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a hefyd yn medru rhoi cyngor cyn-siopa. Atgyfeiriwyd unrhyw droseddau posibl neu achosion cymhleth at y Safonau Masnach (tua 15% o alwadau). Bu'n gweithredu am 3 blynedd ac wedi trin tua 300,000 o alwadau, gan greu 190,000 o achosion. Cyfeiriwyd tua 5% o'r galwadau at ddarparwyr cyngor eraill yn cynnwys CLS Direct ac mae dolenni ar wefan Cyswllt Defnyddwyr. Mae Cyswllt Defnyddwyr wedi arbed £11.5 miliwn o afles defnyddwyr. Mae'r llinell Gymraeg yn derbyn nifer fechan o alwadau, gan gynrychioli 0.1% o'r galwadau. Nodwyd fod 20% o bobl Cymru yn siarad Cymraeg, ond eu profiad oedd nad yw pobl yn defnyddio'r iaith os na wyddant y geiriau Cymraeg am yr holl eirfa gyfreithiol. Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn arfer da i sefydliadau gymryd camau ychwanegol i annog pobl i siarad Cymraeg – hyd yn oed os yw hyn yn golygu cynnal y gwasanaeth yn y ddwy iaith, mewn achosion fel yr amlinellir uchod. Nodwyd nad oedd y llinell gymorth yn credu fod y rhif ffôn yn 0845 yn atal pobl rhag galw. Ar gyfartaledd, roedd galwadau'n parhau am 9 munud a chodid y gyfradd leol ar y galwad. Roedd cynlluniau i symud i rif ffôn 03. Nodwyd y byddai'n ddrud iawn newid i rif 0800.	

	Dywedodd Paul Newell fod CLS Direct i ddechrau ar gynllun peilot llinell ffôn ar gyngor teulu ym mis Hydref.	
8	**"Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru"/Diweddariad Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Camau Nesaf** Dywedodd Lynne Schofield, er i'r ymgynghoriad ddod i ben ym mis Mawrth, fod yr etholiadau i'r Cynulliad a newidiadau gwleidyddol wedi rhwystro cyhoeddi'r papur ymateb ynghynt. Byddai'r papur ar gael ar wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r LSC yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw. Dywedodd fod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried cyd-gomisiynu a chronni cyllidebau yn gam cadarnhaol. Roedd y papur polisi yn cyd-fynd â fframwaith polisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad, ac adlewyrchid hyn yn y ddogfen. Nodwyd fod Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gweithio'n agos iawn gyda'r Comisiwn wrth ei gyflwyno. Nododd Tiana y camau cyntaf a gwahodd unrhyw sylwadau ar y papur polisi. Roedd awydd clir am weithio rhanbarthol ond roedd y rhanbarthau a ddynodwyd yn y papur yn hyblyg. Y bwriad oedd cael y Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol cyntaf ar waith erbyn Ebrill 2008. Dywedodd Naomi fod y papur yn trin nifer o faterion o gonsyrn oedd gan CGGC a'i aelodau a thanlinellodd fod hyblygrwydd yn allweddol wrth symud ymlaen. Roedd pob Awdurdod Lleol yn edrych am gydweithredu ond cael dialog un i un fyddai'r mater pwysicaf. Byddai'r cam cyntaf am drafodaeth yn y byrddau rhanbarthol. Dywedodd Naomi fod angen cael dull newydd i weithio mewn ardal ac yna ddefnyddio hyn fel ffordd o ddangos manteision cydweithio. Holodd Graham os byddai'r broses gomisiynu yn cynnwys lleisiau dinesydd/cleient. Ymatebodd Paul Newell drwy ddweud y byddai comisiynwyr yn penderfynu ar y cyd ar fanylion y broses gomisiynu a'i bod yn annhebyg y byddai ymagwedd safonol. Croesawodd Fran y newidiadau mewn ymagwedd a thôn y papur ond roedd yn dal i fod â rhai pryderon am y manylion. Teimlai fod ailddosbarthiad cyllid annigonol, ond croesawodd yr ymrwymiad i gyllid 3-blynedd. Cytunodd y Pwyllgor y byddai angen iddo egluro a meintioli'r arian a fyddai ar gael. Byddai angen i bartneriaid cyfiawnder ddeall yr hyn y byddai'r newidiadau yn ei olygu iddynt.	
9	**NOMs Cymru – Cynlluniau Presennol/Rhaglenni Allweddol** Cyflwynodd Angela McCarthy gyflwyniad ar y prosiectau NOMS oedd yn mynd rhagddynt i helpu i ostwng aildroseddu. Dywedodd Angela fod angen i asiantaethau cyfiawnder troseddol gydweithio ac anogwyd cysylltiadau cryf gyda chyrff eraill. Nodwyd fod angen goresgyn bwlch diwylliant am ymgyfraniad y trydydd sector. Roedd cynlluniau yn Lloegr yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer dysgu ac roedd cynlluniau i agor carchar i fenywod yng Ngogledd Cymru, gan nad oes carchar i fenywod yng Nghymru ar hyn o bryd.	

	Holwyd p'un ai NOMs neu'r Gwasanaethau Prawf sy'n comisiynu gwasanaethau. Dywedodd Angela mae'r Gwasanaeth Prawf sy'n comisiynu ar hyn o bryd, fodd bynnag mae'n debygol y caiff swyddogaethau eu trosglwyddo o fewn y 2-3 blynedd nesaf.	
10	**Ymchwil – Rhannu problemau – clystyrau problemau cyfreithiol mewn cyfreithwyr ac asiantaethau cynghori** Rhoddodd Richard gyflwyniad i'r grŵp ar ei ymchwil, yn edrych os oedd cleientiaid yn cyflwyno gyda phroblemau lluosog a sut yr oedd y problemau hynny'n cael eu trin. Nodwyd nad oedd cynghorwyr yn trafod problemau y tu allan i'w harbenigedd yn aml yn delio gyda hwy'n ddiwnïad, yn arbennig pan oedd sefydliad y cynghorydd ei hunan yn brin o sgiliau arbenigol yn y math o broblem a gyflwynwyd gan y cleient. Croesawodd y grŵp yr ymchwil. Cyfeiriodd Fran at ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Bangor yn edrych ar ganlyniadau ar gyfer cleientiaid. Byddai Fran yn rhoi manylion pellach i Richard am yr ymchwil. Nodwyd y canfu'r ymchwilydd fod lefelau o iselder difrifol yn llawer uwch nag a ddisgwylid. Er y bu gwelliant mewn atgyfeirio, cytunodd Fran ei fod yn dal yn fater. Dywedodd Paul Newell fod ymchwil ychwanegol gan Richard wedi rhoi tystiolaeth bellach fod yr LSC yn gywir i fynd i lawr y llwybr a wnaeth gyda Strategaeth y CLS. Cytunodd y Pwyllgor mai symud ymlaen i ddelio gyda'r amrediad llawn o broblemau sy'n wynebu cleientiaid oedd y dull cywir. Nododd Tom nad oedd angen i gleientiaid boeni os oedd cyflenwr yn un arbenigol neu gyffredinol a chytunodd fod colli iechyd yn gatalydd pwysig i broblemau. Cytunwyd fod ymyriad cyflym yn bwysig gan fod pobl yn tueddu i gerdded ymaith gyda'u problemau os nad oeddent yn medru eu datrys yn rhwydd. Soniodd Angela y rhoddwyd ystyriaeth i ffactorau tebyg gyda phrosiect Dawn. Roedd y cynllun wedi dod â gwasanaethau ynghyd mewn un adeilad ac wedi profi'n llwyddiannus. **Cam Gweithredu – Fran i e-bostio manylion at Richard o ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Bangor.**	**FT**
10	**Diwedd y Cyfarfod** Diolchodd Tom i bawb am eu cyflwyniadau ac am fynychu'r cyfarfod. Cynhelir y cyfarfod nesaf rhwng 10.30am - 3pm ddydd Gwener 7 Rhagfyr yn yr Holiday Inn, Heol y Castell, Caerdydd. Byddai'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar ddinasyddion.	

Cyfarfodydd y Dyfodol 2007 - 2008

Dyddiad	Math	Lleoliad	Nodiadau/Pynciau
7 Rhagfyr 2007	Cwrdd â Chynrychiolwyr Cleientiaid	Caerdydd	Dynodi proses ar gyfer ymgysylltiad y Pwyllgor gyda chleientiaid a darpar gleientiaid. Deall profiad cleientiaid o wasanaethau cynghori i helpu i ddylunio gwasanaeth.
7 Mawrth 2008	Pwyllgor Cymru	Caerdydd	Adolygu cynnydd tuag at weithredu Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru
6 Mehefin 2008	Cwrdd gyda Chynrychiolwyr Darparwyr	Gogledd Cymru – lleoliad i'w gadarnhau	
12 Medi 2008	Pwyllgor Cymru	Caerdydd	
5 Rhagfyr 2008	Cwrdd â Chynrychiolwyr Cleientiaid	I'w gadarnhau	